
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Meilyr Rowlands
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	17.06.21
Pwnc / Subject:	Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Wrth-hiliol

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol, nodau a champau gweithredu cynllun cydraddoldeb hiliol Llywodraeth Cymru. Mae pob agwedd ar hiliaeth yn annerbyniol a chydabyddwn fod angen i bob rhanddeiliad wneud mwy i sicrhau bod Cymru'n datblygu ymhellach yn wlad wrth-hiliaeth.

Mae ein hymateb yn canolbwyntio ar yr agweddau ar y cynllun sy'n ymwneud ag addysg, cyflogadwyedd a sgiliau, y Gymraeg ac arweinyddiaeth. Credwn fod yr esboniad yn adran gyntaf y cynllun yn darparu cyd-destun clir ar gyfer y nodau a'r camau gweithredu a ddewiswyd, a'i fod yn dadlau achos cryf dros newid. Cytunwn â'r ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu'r nodau a'r camau gweithredu. Mae ychydig feysydd lle'r ydym o'r farn y gellid atgyfnerthu'r cynllun, er enghraifft trwy:

- gynnwys trefniadau monitro i sicrhau bod deilliannau yn y cynllun yn cael eu cyflawni o fewn y graddfeydd amser gofynnol
- adlewyrchu argymhellion o adroddiadau addysg perthnasol, fel adroddiad terfynol Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd a'n hadroddiad thematig ar y Ddarpariaeth ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed uwchradd (Estyn, 2019)
- cyfeirio at groestoriadedd ar draws rhai o'r nodau polisi a'r camau gweithredu yn y rhan o'r cynllun ar addysg

Adnodd sylweddol y bydd ei angen er effeithiolrwydd y cynllun fydd hyfforddi'r holl staff ar addysg wrth-hiliaeth, gan gynnwys athrawon a darlithwyr, staff nad ydynt yn addysgu ac athrawon dan hyfforddiant. Bydd i hyn oblygiadau cyllido sylweddol.

Cytunwn mai defnyddio 'Du, Asiaidd ac Ethnig Lleafrifol', yn hytrach na'r acronym 'BAME', sydd well. Teimlwn for 'ethnig lleafrifol' yn adlewyrchu'n well y ffaith bod gan bawb ethnigrwydd a bod y materion y cyfeirir atynt yn gysylltiedig â grwpiau lleafrifol yng Nghymru, yn hytrach na defnyddio'r term 'lleafrif ethnig'.

Croesawn y trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu ac ystyriwn fod hyn yn gam cadarnhaol tuag at ddarparu cymorth, her, monitro ac ymyrraeth y cynllun gweithredu. Cytunwn y dylai deall pa mor dda mae'r cynllun yn cael ei weithredu a'i effaith gynnwys ystyried "lleisiau pobl" yn ogystal â data a dadansoddi'r data hwnnw. Awgrymwn hefyd fod ein cynrychiolaeth fel sylwedydd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r grŵp atebolrwydd.

Hefyd, byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda'r Uned Gwahaniaethau ar sail Hil a'r Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb arfaethedig i gyfrannu tystiolaeth o'n harolygiadau ac o'n gwaith ar adolygiadau thematig. Er enghraifft, bydd ein hadolygiad presennol ar Hanes Cymru a Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig

Leiafrifol mewn ysgolion yn darparu tystiolaeth werthfawr ac yn amlygu argymhellion ar gyfer gwella.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae gan y Cynllun Gweithredu dri maes penodol yr hoffem i chi roi eich barn i ni arnynt. Maent yn cynnwys y tudalennau sy'n gosod y weledigaeth, y themâu polisi gyda'r nodau a'r camau gweithredu, a'r adran lywodraethu.

Gallwch roi sylwadau ar un neu fwy o'r meysydd hyn.

Ceir rhai cwestiynau isod a allai eich helpu i ymateb:

- 1. A yw'r weledigaeth, y diben, y gwerthoedd a'r dyfodol dychmygol hyd at 2030 yn adlewyrchu'r hyn yr hoffech ei weld yn cael ei gyflawni erbyn 2030? Beth allai rwystro'r weledigaeth a'r gwerthoedd rhag cael eu gwreiddu? Beth allai helpu i wireddu'r weledigaeth a'r gwerthoedd?**

Nid yw'n glir pam y dewiswyd 2030. I ba raddau y mae hyn yn dderbyniol i'r holl randdeiliaid? Os sicrhau "Cymru sy'n Wrth-hiliol erbyn 2030" yw'r weledigaeth, byddai'n ddefnyddiol cyflwyno'r sail resymegol dros ddewis y flwyddyn honno yn benodol.

Credwn y dylid cryfhau'r datganiad diben "Gwneud newidiadau ystyrion a mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy fynd i'r afael â hiliaeth". Mae angen iddo fod yn gryfach na dim ond "mynd i'r afael â hiliaeth". Awgrym posibl ar gyfer gwella'r datganiad hwn yw ei aralleirio fel a ganlyn: "Gwneud newidiadau ystyrion a mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol drwy gymryd camau sylweddol tuag at ddileu pob agwedd ar hiliaeth". Yn ddelfrydol, dileu hiliaeth yn llwyr fyddai hyn ond, yn realistig, mae hynny'n annhebygol o ddigwydd yn y dyfodol agos.

Cytunwn fod y datganiad gwerthoedd, sef "Bod yn agored ac yn dryloyw, canolbwyntio ar hawliau a chynnwys profiadau bywyd", yn ganolog i ddatblygu polisïau.

- 2. Hoffem gael eich barn ar y nodau a'r camau gweithredu. I fynegi barn ar rai o'r nodau, camau gweithredu a chanlyniadau, neu bob un ohonynt, ystyriwch y canlynol:**

- (a) A yw'r esboniad (naratif / cefndir) yn egluro pam rydym wedi dewis y nodau a'r camau gweithredu yn y maes polisi hwn?**

Credwn fod yr esboniad yn adran gefndir y cynllun yn darparu cyd-destun clir ar gyfer y nodau a'r camau gweithredu a ddewiswyd, a'i bod yn dadlau achos cryf dros newid. Cytunwn â'r ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu'r nodau ar dudalen 22. Cytunwn fod angen i Lywodraeth Cymru "Ystyried a oes cyfleoedd i atgyfnerthu gwaith cyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio cyfredol, a rolau ombwdsmyrn, wrth ymateb i hiliaeth". Fel arolygiaeth, rydym eisoes wedi cyfrif am yr agwedd hon wrth ddatblygu ein trefniadau arolygu newydd, yr ymgwymerir â nhw o Fedi 2021 ymlaen.

(b) A oes unrhyw flaenoriaethau neu wybodaeth gefndir neu unrhyw wybodaeth arall ar goll?

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw hepgoriadau arwyddocaol.

(c) Ydych chi'n cytuno â'r nodau a'r camau gweithredu a ddewiswyd? Pa gamau fyddech chi'n eu hychwanegu neu eu dileu?

Er ein bod yn cydnabod mai cynllun strategol lefel uchel yw hwn, gallai elwa o strwythur a fformat mwy cyson ar draws yr holl nodau. Er enghraifft, mae amserlenni rhai camau gweithredu yn amwys, ond eraill yn fwy manwl.

(ch) A fydd pob nod a cham gweithredu cysylltiedig yn cynhyrchu'r canlyniadau dymunol a nodwyd gennym? Os na, beth fyddech chi am ei newid fel ein bod yn cyflawni newidiadau sy'n wirioneddol wrth-hiliol yn yr amserlenni a nodir?

Gellid cryfhau'r cynllun trwy gynnwys trefniadau monitro ac enwebu unigolion o fewn y grŵp atebolrwydd i ymgymryd â chyfrifoldeb am sicrhau bod canlyniadau penodol o fewn y cynllun yn cael eu cyflawni o fewn yr amserlenni gofynnol.

(d) Sut y gellid cynyddu neu liniaru'r effaith gadarnhaol neu negyddol?

- **Addysg:**

Byddem yn cytuno'n fras â'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran hon o'r cynllun er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu bod y cynllun yn cynnwys mwy o gyfeiriadau at brofiadau'r blynyddoedd cynnar. Yn ogystal, byddem yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru, wrth ddatblygu'r camau gweithredu hyn, yn ystyried ein hargymhellion mewn adroddiadau perthnasol. Er enghraifft, ein hadroddiadau ar 'Darpariaeth ar gyfer disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr oed uwchradd' ac 'Ysgolion cymunedol: teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol', a gyhoeddwyd yn 2019 ac yn 2020 yn y drefn honno.

Mae'r camau gweithredu'n cyfeirio at yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad interim a gyflwynwyd gan y Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd. Nawr, mae angen diweddarau'r cynllun gweithredu i gyfrif am adroddiad terfynol y grŵp hwn. Mae'r cynllun yn cyfeirio at yr adroddiad terfynol wrth ystyried y nod sy'n ymwneud â gwella amrywiaeth y gweithlu addysgu, fodd bynnag, dylid adlewyrchu'r argymhellion eraill yn yr adroddiad terfynol yn y cynllun hefyd.

Rydym yn croesawu'r cam gweithredu sy'n dweud, "Byddwn yn gweithio gydag Estyn i benderfynu sut y gellir atgyfnerthu fframwaith arolygu diwygiedig ar gyfer gwrth-hiliaeth ac felly ar gyfer dysgwyr ac athrawon Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a'u cydnabod, eu deall a'u cefnogi. Byddwn yn anelu at sicrhau bod hyn yn cynnwys y modd y gall ysgolion greu ymdeimlad o berthyn a diogelwch i ddysgwyr ac ymarferwyr, gan adeiladu ar argymhellion adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ac argymhellion Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth. Erbyn Hydref 2021."

Rydym eisoes wedi cyfarfod â Llywodraeth Cymru i ystyried y cam gweithredu hwn ac rydym wedi llunio ffocws cryfach ar yr agweddau hyn yn ein fframwaith arolygu newydd.

Gellid atgyfnerthu'r cynllun i adlewyrchu sut y gallai ein harolygiadau o ystod gyfan y sectorau addysg a hyfforddiant hybu gwrth-hiliaeth. Mae darpariaeth arall rydym ni'n ei harolygu, a enwir yn benodol yn y cynllun gweithredu, yn cynnwys Cymraeg i Oedolion, addysg gychwynnol athrawon, SSIE, darparwyr (gofal plant) nas cynhelir, addysg bellach a phrentisiaethau .

- **Troseddau casineb a chyfiawnder:**
- **Tai a llety:**
- **Incwm a chyflogaeth:**

Croesawn y cam gweithredu yn y cynllun i gynnal adolygiad gwrth-hiliol o holl raglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru.

Archwiliodd ein hadroddiad Rhwystrau rhag Prentisiaethau (2014) yr anawsterau a gaiff dysgwyr o grwpiau pobl dduon ac ethnig leiafrifol wrth ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth. Mae tystiolaeth gan ddarparwyr, cyflogwyr a grwpiau cymunedol yn awgrymu bod y rhwystrau sy'n atal dysgwyr o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a'r rheini ag anabledau rhag ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth yn cynnwys:

- diffyg ymwybyddiaeth o brentisiaethau gan rieni, cyflogwyr a dysgwyr eu hunain;
- ychydig iawn o fodelau rôl prentisiaeth o blith y cymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol neu grwpiau pobl anabl;
- anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau gwaith addas, yn enwedig lle mae cyflogwyr o'r farn y bydd angen darparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr;
- gwahaniaethu go iawn neu ganfyddedig;
- anawsterau iaith i fyfyrwyr sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a gwahaniaethau diwylliannol;
- diffyg manteisio ar y cymorth sydd ar gael i ddysgwyr neu beidio â'i ddefnyddio'n llawn;
- pryder rhieni na fydd y bobl ifanc yn gallu ymdopi o bosibl; a
- chydlynu annigonol rhwng ysgolion, cyflogwyr, darparwyr dysgu yn y gwaith a sefydliadau cymunedol lleol i hyrwyddo prentisiaethau.

Rydym yn croesawu'r buddsoddiad yn yr Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn Prentisiaethau a'r gwaith arfaethedig i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn drwy'r Strategaeth Cydraddoldeb. Gall fod yn briodol inni gynnal adolygiad thematig dilynol yn gysylltiedig ag amrywiaeth mewn prentisiaethau pan fydd y contractau prentisiaethau newydd yn dechrau.

- **Iechyd:**
- **Gofal cymdeithasol:**
- **Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth:**

Rydym yn cydnabod bod arweinyddiaeth gynrychiolaidd, gadarn, yn ffactor allweddol ar gyfer sicrhau bod y camau gweithredu a nodir yn y cynllun gweithredu yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus.

- **Celf, Diwylliant, Chwaraeon a Threftadaeth:**
- **Yr Amgylchedd:**
- **Y Gymraeg:**

Mae hwn yn ymgynghoriad amserol yng ngoleuni cyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru a chylch newydd Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r cynigion yn cefnogi'r uchelgais genedlaethol ar gyfer y Gymraeg a amlinellir yn Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'n cyd-fynd â'r disgrifiadau o ddysgu ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Yn dilyn egwyddorion Cymwys am Oes (Llywodraeth Cymru, 2015), mae Dyfodol Llwyddiannus yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg yn natblygiad Cymru 'fel cenedl ddwyieithog sydd â'r cryfder a'r hunanhyder i feithrin y ddwy iaith' (Donaldson, 2015, t.26). At hynny, mae'n datgan y dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd 'ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu, yn enwedig cyfathrebu a deall yr iaith lafar' (Donaldson, 2015, t.115).

Mae canllaw'r Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020a) ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, yn amlinellu sut mae'r maes dysgu a phrofiad yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm. Yn brif nod iddo, mae'n nodi cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm cyfan a galluogi dysgwyr i ennill gwybodaeth a sgiliau yn y Gymraeg, y Saesneg ac mewn ieithoedd rhyngwladol, yn ogystal ag mewn llenyddiaeth (Llywodraeth Cymru, 2020a, t.126). Hefyd, amlygir pwysigrwydd cefnogi 'dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus a gwerthfawrogi pa mor ddefnyddiol ydyw er mwyn cyfathrebu mewn Cymru ddwyieithog' (Llywodraeth Cymru, 2020a, t.30). O ganlyniad, mae datblygu dysgwyr sy'n ymfalchïo yn y Gymraeg ac yn ei defnyddio gyda hyder cynyddol yn ganolog i'r weledigaeth genedlaethol.

Gellid atgyfnerthu'r cam gweithredu ynghylch y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnwys ymgysylltu â'r gymuned Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i hyrwyddo cyfleoedd ac archwilio rhwystrau.

- **Democratiaeth leol:**
- **Materion trawsbynciol:**

3. A oes unrhyw nodau a chamau gweithredu y gallwch feddwl amdanynt sydd ar goll? Pwy ddylai eu cyflawni a pha gamau a fyddai'n eu helpu i wneud hynny?

Ar yr adeg hon, credwn y dylai'r cynllun gynnwys mwy o gyfeiriadau at brofiadau'r blynyddoedd cynnar.

4. Beth yw'r heriau allweddol a allai atal y nodau a'r camau gweithredu rhag cyflawni gwrth-hiliaeth erbyn 2025?

Gall hwn fod yn wall teipio – rydym yn cymryd yn ganiataol mai '2030' ddylai fod fan hyn, nid '2025'?

Os bydd y pandemig yn parhau, gallai hyn effeithio ar gyflwyno'r cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol ac effeithio'n negyddol ar y camau gweithredu a'r canlyniadau.

5. Pa adnoddau (gallai hyn gynnwys cyllid, amser staff, hyfforddiant, mynediad at wasanaethau cymorth neu eiriolaeth ymhlith pethau eraill) a fydd yn angenrheidiol yn eich barn chi i gyflawni'r nodau a'r camau gweithredu a amlinellir?

Bydd angen hyfforddi'r holl staff addysg ar addysg wrth-hiliol, gan gynnwys athrawon, staff nad ydynt yn addysgu ac athrawon dan hyfforddiant. Caiff hyn effaith arwyddocaol ar gyllid. Dylid clustnodi'r cyllid hwn fel y caiff ei ddefnyddio dim ond at y diben penodol y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio.

6. Ydych chi'n teimlo bod y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ymdrin yn ddigonol â chroestoriad hil â nodweddion gwarchoddedig eraill megis crefydd neu gred, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, aibennu rhywedd, rhyw, a statws priodasol a phartneriaeth sifil? Os na, sut y gallwn wella hyn?

Rydym yn cydnabod bod gwaith ar groestoriadedd yn parhau a bod Llywodraeth Cymru'n gobeithio datblygu hyn ymhellach trwy'r ymgynghoriad hwn. Fodd bynnag

er bod cyfeiriadau at groestoriadedd ar draws rhai o'r nodau polisi a'r camau gweithredu, nid yw'n ymddangos bod unrhyw gyfeiriadau at hyn yn yr adran ar addysg. Gallai cynnwys croestoriadedd yn adran y cynllun ar addysg atgyfnerthu'r cynllun ymhellach.

7. Gweler yr adran Llywodraethu. Pa awgrymiadau allwch chi eu cynnig ar gyfer mesur llwyddiant wrth greu Cymru wrth-hiliol ac ar gyfer cryfhau atebolrwydd am weithredu?

Rydym yn croesawu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu ac ystyriwn fod hyn yn gam cadarnhaol at ddarparu cymorth, her, monitro ac ymyrraeth y cynllun gweithredu. Cryfder arbennig y trefniadau hyn yw'r ymrwymiad "y dylai'r trefniadau llywodraethu sy'n gysylltiedig â'i roi ar waith gymell pobl i weithredu." Cytunwn y dylai'r ddealltwriaeth o ba mor dda mae'r cynllun yn cael ei weithredu a'i effaith gynnwys ystyried "lleisiau pobl" yn ogystal â data a dadansoddi'r data hwnnw.

Hefyd, byddem yn awgrymu bod ein cynrychiolaeth fel sylwedydd yn cael ei chynnwys fel rhan o'r grŵp atebolrwydd.

Byddem yn croesawu'r cyfle hefyd i weithio gyda'r Uned Gwahaniaethau ar sail Hil ac Uned Data a Thystiolaeth Cydraddoldeb arfaethedig i gyfrannu tystiolaeth o'n harolygiadau a gwaith ein hadolygiadau thematig. Er enghraifft, bydd ein hadolygiad presennol ar 'Hanes Cymru a Hanes Pobl Dduon, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol mewn ysgolion' yn darparu tystiolaeth werthfawr ac yn nodi argymhellion ar gyfer gwella.

8. Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r manteision i ddysgwyr yn sgil cynyddu'u cymhwysedd yn y Gymraeg a bod yn ddwyieithog wedi'u hen sefydlu. Maent yn cynnwys:

- gwerth masnachol yn y farchnad waith ac ymestyn medrau iaith ar gyfer y gweithle
- ehangu eu gorwelion a chyfoethogi eu profiadau o fywyd yng Nghymru a'r tu hwnt
- manteision gwybyddol dwyieithrwydd
- gwerthfawrogi amrywiaeth

Rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wnaed yn y cynllun drafft i hybu'r Gymraeg trwy gynyddu nifer y plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wrth ddatblygu a chyflwyno'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae awdurdodau lleol eisoes yn datblygu'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd nesaf fel eu bod yn weithredol o Fedi 2022 ymlaen.

Fel rhan o'n gwaith yn [Llythyr Cylch Gwaith Estyn 2021-2022](#), byddwn yn rhoi gwerthusiad i bob awdurdod lleol o'u Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a byddwn yn ystyried pa mor dda y maent wedi ymgysylltu â'u cymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a pha mor uchelgeisiol yw eu cynlluniau o ran cynyddu nifer y plant Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg.

Rydym hefyd yn croesawu'r rôl sydd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrth hybu nifer y dysgwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n ymgymryd â chysiau Cymraeg i Oedolion a Chymraeg yn y Gweithle. Teimlwn y gellid atgyfnerthu'r cam gweithredu sy'n gysylltiedig â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnwys ymgysylltu â'r gymuned Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i hybu cyfleoedd ac archwilio rhwystrau.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?

Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn hanfodol i sicrhau tegwch i bob dysgwr ymgymryd â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cefnogi disgyblion i ymgysylltu ag addysg cyfrwng Cymraeg o wahanol fannau cychwyn unigol. O ganlyniad, caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddysgwyr o gefndiroedd amrywiol i drochi yn y Gymraeg ac, felly, ennill hyder i allu sgwrsio trwy gyfwng y Gymraeg, yn ychwanegol at eu hiaith gyntaf.

- 9. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid trefnu neu newid y dull polisi arfaethedig er mwyn sicrhau effeithiau cadarnhaol neu mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Ni chredwn y bydd y cynigion yn y cynllun drafft yn cael effeithiau negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

10. Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd, ac mae trafodaethau ynghylch iaith a hunaniaeth wedi dangos nad yw llawer o bobl yn ystyried bod y term 'BAME' yn briodol. O ganlyniad, rydym yn cyfeirio at bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol neu bobl ethnig leiafrifol penodol yn y Cynllun. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y term hwn hefyd yn broblemus a'i bod yn well, lle bo'n bosibl, bod yn fwy penodol am yr hil neu'r ethnigrwydd y mae unigolyn neu gymuned yn uniaethu ag ef. Fodd bynnag, ar adegau, mae angen cyfeirio at yr holl bobl hynny sy'n rhannu'r profiad o fod yn destun hiliaeth. Rydym wedi defnyddio'r term pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol at y diben hwn. Beth yw eich barn am y term hwn ac a oes dewis arall sy'n well gennych? Gall siaradwyr Cymraeg ystyried termau addas yn y ddwy iaith.

Cytunwyd fod defnyddio Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn well na'r acronym 'BAME'. Hefyd, rydym yn cydnabod bod y term hwn yn broblemus. Fodd bynnag, awgrymwn y dylid defnyddio 'ethnig lleiafrifol' yn hytrach na'r term 'lleiafrif ethnig'. Teimlwn fod 'ethnig leiafrifol' yn adlewyrchu'n well y ffaith bod gan bawb ethnigrwydd a bod y materion y cyfeirir atynt yn gysylltiedig â grwpiau lleiafrifol yng Nghymru.

11. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, gallwch eu nodi yma:

Yn rhagair y cyd-gadeiryddion ar dudalen 5, gwnânt y datganiad "bod y rhan fwyaf o bobl mewn cymdeithas yn anhiliol". Byddai'n ddefnyddiol cynnwys ffynhonnell y wybodaeth hon, oherwydd ei bod yn gosod naws gyfan yr ymgynghoriad a'r cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol.

Mae Adran 4 'Hiliaeth – dyfyniadau gan bartneriaid' yn ofidus ac, os gall y cynllun gweithredu cydraddoldeb hiliol hwn helpu i fynd i'r afael â'r materion a amlinellir yn y dyfyniadau, byddem yn ystyried bod hynny'n ganlyniad cadarnhaol.

Mae gennym rai pryderon am y geiriad ar dudalen 10 – "Ond i grwpiau ethnig lleiafrifol, maent wedi llawn haeddu'r hawliau hyn ers tro" – pam mae'n rhaid i grwpiau ethnig lleiafrifol 'haeddu' hawliau? Onid yw "hawl" trwy ddiffiniad yn rhywbeth nad oes rhaid ei haeddu? Yn nes ymlaen ar dudalen 26 yr adran ar werthoedd, mae'n datgan 'Rydyn ni'n credu ein bod yn gofyn "am ddim ond ein hawliau, yn hytrach na ffafrau" ym mhob peth a wnewch'. Cytunwn â'r datganiad hwn, ond mae fel petai'n gwrthdweud y geiriad ar dudalen 10 am haeddu'u hawliau.

Cytunwn â'r sylwadau ar dudalen 11, sef "Nid yw Cymru yn wlad gyfartal, ac mae profiadau llawer o gymunedau o'i mewn yn wahanol iawn. Mae pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu achosion o wahaniaethu a hiliaeth." Hefyd, rydym

yn croesawu'r datganiadau a wnaed o dan y pennawd "Cynllun ar gyfer gwrth-hiliaeth (nid strategaeth)", sef yn benodol "Mae gwrth-hiliaeth ar lefel mudiadau a sefydliadau yn golygu bod angen archwilio polisïau, arferion, swyddogaethau a phrosesau yn ofalus er mwyn datgelu a yw arferion a mathau o ymddygiad sy'n ymddangos yn ddiniwed o bosibl yn gwahaniaethu'n anfwriadol yn erbyn grwpiau ethnig lleiafrifol ac os felly, sut y maent yn gwneud hynny."

Ar dudalen 127, dywed y cynllun "Yn ôl tystiolaeth a ddarparwyd gan EYST i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg , ar hyn o bryd nid oes unrhyw benaethiaid o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru" ac mae'n cyfeirio at ddogfen o 2018. Mae hyn yn anghywir. Gwyddom am o leiaf un pennaeth ethnig lleiafrifol yng Nghymru a oedd hefyd mewn swydd yn 2018.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych pe bai eich ymateb yn aros yn anhysbys, ticiwch yma: